# PROSIECTAU CYDLYNIANT CYMUNEDOL 2023

## Ysgol St Martins

Cefnogodd 22 o ddisgyblion o Ysgol St Martins Gartref Gofal Church View i gynnal sesiynau pontio'r cenedlaethau gyda'r preswylwyr, trwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau'n cynnwys addurno bisgedi, gemau bwrdd a chelf. Mae'r prosiect wedi cael effaith gadarnhaol ar y preswylwyr a'r myfyrwyr ac wedi lleihau stereoteipio.

## Rhandir Cymunedol Cyfeillion Morgan Jones

Roedd y grŵp o wirfoddolwyr yn cydnabod bod nifer o'r preswylwyr yn dioddef o afiechyd ochr yn ochr â phroblemau symudedd a oedd yn achosi iddynt fethu â chael mynediad at gnydau, felly'n effeithio'n negyddol ar eu gallu i integreiddio i'r grŵp wrth arddio. Gyda chefnogaeth y grant, llwyddodd y grŵp i weithio gyda phartneriaid cymunedol fel yr ysgol leol a'r awdurdod, i brynu ac adeiladu gwelyau uchel i dyfu cnydau. Mae'r prosiect wedi bod o fudd i bawb a gymerodd ran ac wedi caniatáu amgylchedd cydlynol i feithrin cyfeillgarwch newydd i bob gallu.



## Caffi Cof



Mae mynd ati i greu caffi cof wythnosol o Gynllun Gofal Ychwanegol Plas Hyfryd wedi cefnogi preswylwyr ac aelodau'r gymuned sydd yn colli eu cof, a rhoi lle diogel a seibiant i ofalwyr siarad ag asiantaethau eraill i gael cymorth. Mae'r sesiynau'n cael eu cefnogi gan bartneriaid a sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth o weithdai a sgyrsiau gan ee Amgueddfa Werin Cymru ynghyd â chefnogaeth gan GAVO.

## Valley Daffodils

Mae Valley Daffodils yn elusen gofrestredig gwbl gynhwysol i unigolion â phob math o anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd/gofalwyr. Diolch i'r cyllid, mae'r elusen wedi medru cynnig sesiwn newydd gyda'r nos ynghyd ag amrywiaeth o weithdai, yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i): Pob math o chwaraeon; Cerddoriaeth a Symud; Coginio; Sgiliau Syrcas; Rhyngweithio ag Anifeiliaid; Therapi cŵn; Bingo; Karaoke a Chelf a Chrefft. Fe wnaethant hefyd hyrwyddo a dathlu diwylliannau eraill drwy gydol y flwyddyn fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.



.

## Ysgol Act



Mae Ysgol ACT yn ysgol annibynnol gofrestredig sy'n derbyn myfyrwyr ag anghenion addysgol arbennig, gan ganolbwyntio'n bennaf ar anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae ACT yn angerddol am sicrhau bod gan bob person ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod yn oedolion sy'n llwyddo, ac felly fe wnaethant gyflwyno prosiect mewn cartrefi gofal lleol i feithrin cysylltiadau a rhyngweithio ystyrlon rhwng eu disgyblion ac aelodau hŷn eu cymuned. Mae'r prosiect hwn wedi rhoi profiadau bywyd go iawn iddynt o ran cefnogi a rhyngweithio gyda'r henoed gan ganolbwyntio ar gymorth technegol, modern.

## Ysgol Gynradd Willowtown, Big Bocs Bwyd

Mae'r BBB yn gynhwysydd a ddefnyddiwyd ar long ar un adeg. Mae wedi'i drawsnewid yn siop gymunedol fach, groesawgar sy'n cael ei rhedeg gan staff yr ysgol, llysgenhadon ifanc sy'n ddisgyblion a rhieni/ gofalwyr gwirfoddol. Mae'n agor ddwywaith yr wythnos ac mae'n seiliedig ar fodel 'Talu fel y Mynnwch' i leihau rhagfarn a chefnogi cynaliadwyedd. Wrth dderbyn cyllid, mae'r ysgol hefyd wedi creu effaith ar deuluoedd trwy ddarparu cardiau ryseitiau a gweithdai coginio a oedd hefyd yn cynnwys bag bwyd i'w gludo gartref fel bod teuluoedd yn teimlo'n hyderus i goginio'r rysáit gartref. Mae rhieni sy'n gwirfoddoli hefyd wedi uwchsgilio i ennill cymhwyster Hylendid Bwyd lefel 2 i gefnogi'r prosiect. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu sgiliau i weithio yn y dyfodol ynghyd â lleihau rhwystrau o ran trafod dewisiadau bwyd iachus wrth baratoi prydau bwyd. Mae'r prosiect bellach wedi ehangu i greu rhandir ysgol.